Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

8 Mai 2008

Estyn yn arfarnu cynnydd wrth roi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (AGChY) ar waith

Mae adroddiad a gyhoeddir heddiw gan Estyn yn datgelu bod safonau mewn addysg gorfforol wedi gwella ym mron pob ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y fenter hon ers cryn amser.

Nod menter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol yw codi safonau mewn addysg gorfforol a sicrhau bod hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn rhoi'r hyder, y wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth i athrawon i addysgu addysg gorfforol. Nod arall gan y fenter yw sefydlu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) achrededig mewn addysg gorfforol i athrawon, ynghyd â chanolfannau datblygu'r cwricwlwm i ddatblygu arfer dda mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol.

Mae Estyn wedi darganfod bod disgyblion yn gwella'u medrau allweddol yn well pan fydd athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n eu hannog i fod yn ddysgwyr annibynnol, i fabwysiadu rolau fel arweinwyr a dadansoddi ac arfarnu ansawdd eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. Dywdeodd llawer o'r penaethiaid a gafodd eu cyfweld bod menter AGChY wedi cyfrannu'n sylweddol at welliannau mewn agweddau ac ymddygiad disgyblion.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif bach o ysgolion, mae AGChY wedi bod yn llai llwyddiannus. Yn yr ysgolion hyn, nid yw penaethiaid wedi bod yn ddigon rhagweithiol yn nodi sut y gallant gefnogi'r fenter o'r amrediad o gyllid amgen sydd ar gael. Nid yw rhai athrawon uwchradd wedi dangos yr un ymrwymiad i'r fenter â'u partneriaid cynradd.

Mae Estyn yn argymell y dylai ysgolion ymgynghori'n eang i weld sut y gallant ehangu effaith y fenter trwy ddefnyddio ystod o gyllid, ynghyd â sut i sicrhau'r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer pob disgybl.

Dywed Dr Bill Maxwell, y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant, bod "Cyngor Chwaraeon Cymru, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon, yn darparu rhaglen hyfforddi helaeth i athrawon, trwy hyfforddiant mewn swydd canolog a hyfforddiant mewn swydd yn yr ysgol. Mae llawer iawn o athrawon wedi elwa ar y cyrsiau hyn".

Mae Estyn hefyd yn argymell y dylai awdurdodau lleol helpu ysgolion i feddwl yn fwy creadigol ynghylch sut i gynnal y fenter lle mae cyllid wedi dod i ben a gweithio gyda'u harbenigwyr i fonitro'r effaith ar safonau yn fwy cywir.

Diwedd

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor ansawdd uchel.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Cynnydd wrth roi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol ar waith', gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng nghylch gorchwyl y Gweinidog i Estyn yn 2007-2008, i arfarnu cynnydd wrth roi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (AGChY) ar waith. Cyflwynwyd y fenter yn 2001 i ymateb i'r cynllun gweithredu gan y dasglu AGChY (wele Atodiad 1 yn yr adroddiad llawn am grynodeb)

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn ar www.estyn.gov.uk

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Lisa Jordaan
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464